

Gwybodaeth gyd-destunol yn adroddiad Llesiant Cymru: 2022

Mae'r ddogfen hon yn darparu dolenni lle mae rhagor o wybodaeth ar gael am ansawdd y data dangosyddion anstatudol a ddefnyddir yn yr adroddiadau cynnydd ar gyfer y 7 nod llesiant yn adroddiad Llesiant Cymru. Mae'r dolenni'n rhoi manylion fel cwmpas, cryfder a chyfyngiadau'r data, a hefyd y prosesau a ddefnyddir i gynhyrchu a chyhoeddi'r setiau data y tu ôl i'r ystadegau a ddyfynnwyd yn yr adroddiad cynnydd.

Er bod y rhan fwyaf o'r naratif yn adroddiad Llesiant Cymru yn dod o ddangosyddion cenedlaethol, mae rhywfaint o'r data gyd-destunol yn dod o ystadegau swyddogol eraill neu ystadegau a datganiadau ffeithiol sy'n gysylltiedig â pholisïau neu raglenni penodol, lle'r ydym o'r farn eu bod yn berthnasol i'r naratif cyffredinol.

Mae'r data sydd ddim yn cael ei gasglu drwy ffynonellau ystadegau swyddogol yn cael eu defnyddio yn yr adroddiad Llesiant Cymru ar gyfer gyd-destun, ond ni allwn bob amser sicrhau ansawdd data. Gan fod y data yn yr adroddiad cynnydd wedi dod o amrywiaeth o setiau data, bydd lefel yr wybodaeth o ansawdd sydd ar gael yn amrywio ym mhob achos. Lle bo gan y ffynonellau data gwreiddiol adroddiadau ansawdd manwl, rydym wedi darparu dolenni i'r adroddiadau hynny. Lle nad oes adroddiadau ansawdd ar gael ar gyfer ffynhonnell, mae gwybodaeth ychwanegol, lle bo ar gael, wedi ei chynnwys yn y ddogfen hon.

Mae'r [Adroddiad Ansawdd ar gyfer y Dangosyddion Cenedlaethol](#), sydd i'w weld ar dudalennau gwe Llesiant Cymru, yn cynnwys gwybodaeth am ansawdd y data a ddefnyddir ar gyfer y dangosyddion. Gan hynny, nid yw'r ffynonellau data hynny wedi eu cynnwys yn y ddogfen hon.

[Cyflawniad academaidd disgyblion 4 i 14 oed mewn pynciau craidd, 2019,](#)

Llywodraeth Cymru

Cyhoeddir y data hyn fel Ystadegau Gwladol. Gweler yr adran Gwybodaeth am Ansawdd Allweddol yn y datganiad am wybodaeth am ansawdd a methodoleg.

[Dangosyddion Cyfartaledd Crynodiadau Ansawdd Aer,](#) Llywodraeth Cymru

Bob blwyddyn, mae model Mapio Hinsawdd Llygredd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cyfrifo'r crynodiadau llygredd cyfartalog ar gyfer pob cilometr sgwâr yn y Deyrnas Unedig. Mae'r model yn cael ei raddnodi yn erbyn mesuriadau a gymerir o rwydwaith monitro ansawdd aer cenedlaethol y Deyrnas Unedig.

Mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio'r data cyhoeddedig hwn i neilltuo crynodiad o NO₂, PM_{2.5} a PM₁₀ i bob annedd breswyl yng Nghymru ar sail y cilometr sgwâr o Gymru y mae wedi ei leoli ynddo.

Gweler adran Methodoleg [data llygredd cefndir wedi ei fodelu – Defra, y Deyrnas Unedig](#) am wybodaeth am ansawdd a methodoleg.

[Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer,](#) Llywodraeth Cymru

Mae adran 82 o [Ddeddf yr Amgylchedd 1995](#) yn ei gwneud yn ofynnol i bob Awdurdod Lleol adolygu'r ansawdd aer presennol a'r ansawdd aer tebygol yn ei ardal yn y dyfodol. Mae adran 83 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol ddynodi ardal rheoli ansawdd aer pan na fydd amcan ansawdd aer cenedlaethol yn cael ei gyflawni, neu pan na fydd yn debygol o gael ei gyflawni. Mae Adran 84 wedyn yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Lleol ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer yr Ardal.

Mae'r tabl cysylltiedig yn crynhoi'r awdurdodau lleol ledled Cymru sydd wedi datgan bod ganddynt ardaloedd rheoli ansawdd aer gweithredol.

Mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a'r Gweinyddiaethau Datganoledig wedi darparu amrywiaeth o adnoddau i helpu awdurdodau lleol gyda'r broses o Adolygu ac Asesu Ansawdd Aer. Mae'r holl offer hyn [ar gael ar-lein a gellir eu llwytho i lawr.](#)

[Llygredd Aer ac Iechyd yng Nghymru](#), Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae ffynonellau data ar gyfer y daflen ffeithiau i'w gweld ar waelod y ddogfen. Nid yw pob un o'r ffynonellau data hyn yn cael eu cyhoeddi fel Ystadegau Swyddogol.

[Adroddiadau blynyddol](#), y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus

Mae gan y Comisiynydd ddyletswydd statudol i gyhoeddi'r mewnlfif o bobl a benodir i swyddi cyhoeddus a'r data amrywiaeth a ddatganwyd ganddynt. Mae'r data llif hwn yn ategu'r data 'stoc' mae Tîm Polisi Penodiadau Cyhoeddus Swyddfa'r Cabinet yn ei gyhoeddi ar y rhai a benodir yn eu swyddi ar 31 Mawrth bob blwyddyn. Nid oedd data stoc ar gyfer y flwyddyn 2019-20 ar gael pan ysgrifennwyd adroddiad blynyddol 2019/20.

Mae rhagor o fanylion am y broses o gasglu a chyhoeddi data amrywiaeth ymgeiswyr, cyfweleion a phenodeion ar gyfer penodiadau cyhoeddus ar gael yn adran Amrywiaeth mewn penodiadau cyhoeddus yr adroddiad.

Mae ystadegau penodiadau cyhoeddus ar gyfer Llywodraeth Cymru ar gael yn nhablau 62-73 yr adroddiad.

[Arolwg blynyddol o oriau ac enillion | LLYW.CYMRU](#), Llywodraeth Cymru

Daw'r data hyn o'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, sy'n cael ei redeg gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac sy'n cael ei gyhoeddi fel Ystadegau Gwladol.

Gweler yr [Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, Cyflogau Isel a Gwybodaeth Ansawdd a Methodoleg am ganlyniadau pensiwn yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion](#) am ragor o wybodaeth.

[Data bwydo ar y fron: 2021](#), Llywodraeth Cymru

Gweler yr adroddiad ansawdd o'r cyhoeddiad am ragor o wybodaeth.

[Arolwg Adar Nythu](#)

Mae'r Arolwg Adar Nythu yn gynllun monitro gwyddoniaeth y bobl sydd wedi bod ar waith ers 1994. Edrychwch ar y dudalen [methodoleg a dylunio arolygon](#) i gael rhagor o wybodaeth.

[Genedigaethau yng Nghymru a Lloegr](#), y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Cyhoeddir y data hyn fel Ystadegau Gwladol. Gweler yr adrannau Mesur y Data a Chryfderau a Chfyngiadau yn y datganiad i gael gwybodaeth am ansawdd a methodoleg.

[Goroesi Canser yng Nghymru, 2002-2018](#), Iechyd Cyhoeddus Cymru

Yr ystadegau swyddogol diweddaraf sydd ar gael ar gyfer goroesi canser yng Nghymru ar gyfer blynyddoedd diagnosis 2002-2018, yn ôl y math o ganser, rhywedd, grŵp oedran, bwrdd iechyd preswyl, cam adeg y diagnosis ac amddifadedd ardal.

Roedd cleifion yn dal i gael apwyntiadau dilynol tan 31 Rhagfyr 2020.

[Cyfrifiad o'r boblogaeth: 2011](#), Llywodraeth Cymru

Cynhaliwyd Cyfrifiad 2011 ar 27 Mawrth 2011.

Darllenwch [ganllaw defnyddwyr Cyfrifiad 2011](#) i gael gwybodaeth am ansawdd a methodoleg.

[Arolwg Omnibws Plant 2019](#), Cyngor Celfyddydau Cymru

Gweler adran Methodoleg Arolwg Omnibws Plant 2019: Adroddiad Presenoldeb a Chyfranogiad Cyffredinol i gael rhagor o wybodaeth. Cyhoeddir y data hwn fel Ystadegau Swyddogol.

[Coronafeirws a chyflogaeth: dadansoddiad ar nodweddion gwarchoddedig](#),
Llywodraeth Cymru

Cafodd y dadansoddiad hwn ei gyhoeddi fel cyhoeddiad ad-hoc heb ei drefnu i gynorthwyo grŵp cynghori BAME COVID-19 yn ogystal â'r adolygiad parhaus o fesurau'r cyfyngiadau symud yng Nghymru.

Mae'r data'n edrych ar nodweddion dwy garfan wahanol o bobl yng Nghymru: gweithwyr hanfodol (allweddol), a phobl sy'n gweithio mewn diwydiannau y dywedwyd wrthynt am gau yng Nghymru ym mis Mawrth 2020.

Mae'r data'n seiliedig ar yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn y flwyddyn a ddaeth i ben yn 2019.

Edrychwch ar adrannau Nodiadau ar Ddata y tabiau Cynnwys yn y tablau data i gael rhagor o wybodaeth.

[Coronafeirws \(COVID-19\) a'r boblogaeth pobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru](#), Llywodraeth Cymru

Mae'r erthygl hon yn crynhoi canfyddiadau amrywiaeth o ddadansoddiadau sy'n ymwneud â'r boblogaeth pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) yng Nghymru. Mae'n canolbwyntio ar feysydd lle gallai effaith y Coronafeirws (COVID-19) a/neu'r mesurau ataliol dilynol effeithio'n anghymesur ar y boblogaeth BAME.

Cyfeiriwch at y ffynonellau sydd wedi eu cysylltu yn yr erthygl i gael gwybodaeth am ansawdd a methodoleg.

[Coronafeirws \(COVID-19\) a'r effaith ar bobl anabl yng Nghymru](#), Llywodraeth Cymru

Cafodd y dadansoddiadau hyn eu dwyn ynghyd i gynorthwyo gwaith grŵp llywio a gomisiynwyd gan Fforwm Cydraddoldeb Anabledd Llywodraeth Cymru i ystyried ac adrodd ar effaith COVID-19 ar bobl anabl yng Nghymru. Mae'r erthygl hon yn crynhoi'r dadansoddiadau oedd ar gael i'r grŵp llywio hyd at 18 Chwefror 2021.

Cyfeiriwch at y ffynonellau sydd wedi eu cysylltu yn yr erthygl i gael gwybodaeth am ansawdd a methodoleg.

[Adroddiad goruchwylio manwl misol ar frechu COVID-19](#), Iechyd Cyhoeddus Cymru

[Troseddau yng Nghymru a Lloegr: Tablau data fesul Ardal Heddlu](#), y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae'r tablau data hyn yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r bwletin Troseddau yng Nghymru a Lloegr, y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2021. Nid yw data troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu wedi eu dynodi'n Ystadegau Gwladol.

[Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr](#), y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae data Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr wedi eu dynodi'n Ystadegau Gwladol. Cyhoeddir data'r Arolwg Troseddu sy'n cael ei weithredu dros y ffôn ar gyfer Cymru a Lloegr fel Ystadegau Arbrolfol, sydd yn y cyfnod profi ac nad ydynt wedi eu datblygu'n llawn eto. Mae gwybodaeth am ansawdd a methodoleg data Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr ar gael yn yr adran Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr yn

yr [Arweiniad i Ddefnyddwyr ar ystadegau troseddu ar gyfer Cymru a Lloegr: Mawrth 2020](#).

[Tablau Tueddiadau a Demograffig Blynyddol](#)

Am nodiadau esboniadol ar yr ystadegau hyn, gweler y [Canllaw i Ddefnyddwyr ar ystadegau troseddu ar gyfer Cymru a Lloegr: Mesur troseddu yn ystod pandemig y Coronafeirws \(COVID-19\)](#).

[Tablau data Canfyddiadau Eraill](#)

Mae'r ffolder ZIP y gellir ei llwytho i lawr ar gyfer y tablau Canfyddiadau Eraill yn cynnwys dogfen gyfarwyddiadau Tabl Agored CSEW sy'n cynnwys rhagor o wybodaeth am ddiffiniadau.

[Nifer yr Achosion o Droseddau Personol](#)

Mae'r ffolder ZIP y gellir ei llwytho i lawr ar gyfer y tablau Nifer yr Achosion o Droseddau Personol yn cynnwys dogfen gyfarwyddiadau Tabl Agored CSEW sy'n cynnwys rhagor o wybodaeth am ddiffiniadau.

[Cyfraddau adrodd Troseddau Casineb](#)

Mae'r data hyn wedi eu dynodi'n Ystadegau Gwladol Gweler yr adran Gwybodaeth am Ansawdd yn y datganiad am wybodaeth am ansawdd a methodoleg.

[Marwolaethau pobl ddigartref yng Nghymru a Lloegr](#), y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae'r datganiad hwn yn cynrychioli'r drydedd set o ffigurau swyddogol ar farwolaethau pobl ddigartref. Cynhyrchir y ffigurau fel [Ystadegau Arbrofol](#) - hynny yw, maent yn y cyfnod profi ac nid ydynt wedi eu datblygu'n llawn eto. Mae'n bwysig bod defnyddwyr yn ymwybodol o gyfyngiadau'r amcangyfrifon a nodir yn y datganiad hwn.

Gweler yr adrannau Mesur y data a Chryfderau a chyfyngiadau yn y datganiad i gael gwybodaeth am ansawdd a methodoleg. Mae rhagor o wybodaeth am ansawdd a methodoleg ar gael ym [Mynegai Marwolaethau Pobl ddigartref yng Nghymru a Lloegr](#).

[Adroddiad ar ôl-troed Ecolegol a Charbon, Llywodraeth Cymru](#)

Gweler adran Methodoleg yr adroddiad am wybodaeth am ansawdd a methodoleg.

[Etholiad 2021: Pa mor amrywiol yw'r Chweched Senedd?](#), Senedd Cymru

Cafodd yr erthygl ymchwil hon ei chynhyrchu gan Ymchwil y Senedd fel rhan o gyfres o erthyglau a gyhoeddwyd adeg etholiad 2021 y Senedd. Mae dolenni i'r ffynonellau data yn yr erthygl.

[Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr](#), Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol

Mae'r rhain yn allyriadau nwyon tŷ gwydr a amcangyfrifir gan Restr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol y Deyrnas Unedig. Mae allbynnau o'r Rhestr wedi cael eu dosbarthu fel Ystadegau Gwladol.

Mae'r cynhyrchwyr yn cael eu harchwilio ac mae rhestr sylfaenol y Deyrnas Unedig yn destun rhaglen o adolygiadau arbenigol blynyddol trylwyr (CU, UE), ac adolygiadau dwyochrog a chyfoed mynych. Mae'r gweithgareddau hyn yn dadansoddi'r dulliau, y tybiaethau a'r ffynonellau data sy'n sail i gyflwyniadau yn y Deyrnas Unedig ac yn asesu tryloywder, cywirdeb, cyflawnder, cysondeb y cyfresi amser a chymharedd (yn erbyn gwledydd eraill sy'n adrodd) rhestr y Deyrnas Unedig.

Edrychwch ar yr adran [Methodoleg](#) ar wefan y Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol i gael gwybodaeth am ansawdd a methodoleg.

[Cynhyrchu Ynni yng Nghymru 2020](#), Llywodraeth Cymru

Comisiynwyd Regen gan Lywodraeth Cymru i gynhyrchu cronfa ddata o brosiectau cynhyrchu ynni yng Nghymru; canfod i ba raddau mae'r prosiectau'n eiddo i unigolion, sefydliadau a chymunedau yng Nghymru; a dadansoddi'r data i lunio adroddiad ar gynnydd.

Edrychwch ar yr adran Methodoleg yn adroddiad Cynhyrchu Ynni yng Nghymru 2020 i gael gwybodaeth am ansawdd a methodoleg.

[Ystadegau cydraddoldeb ac amrywiaeth](#), Llywodraeth Cymru.

Mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn samplu tua 18,000 o gartrefi yng Nghymru bob blwyddyn. Fodd bynnag, gall maint y samplau ar gyfer pobl sydd â 'nodweddion gwarchoddedig' (fel y nodir yn [Neddf Cydraddoldeb 2010](#)) fod yn gymharol fach. Gan hynny, er mwyn gwella'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer pobl sydd â 'nodweddion gwarchoddedig', mae dadansoddiad manylach wedi cael ei gynhyrchu o set ddata gyfun sy'n cyfuno 3 blynedd o ddata APS. Mae'r dadansoddiad hwn i'w gael ar

[ein gwefan StatsCymru](#). Mae rhai o'r dadansoddiadau hyn wedi cael eu cyhoeddi fel Ystadegau Gwladol tra bo eraill yn cael eu cyhoeddi fel Ystadegau Arbrofol.

Mae manylion am sut mae'r arolwg yn cael ei ddatblygu a'i gynnal ar gael yn adroddiad [Gwybodaeth am Ddull ac ansawdd yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth](#).

[Canlyniadau arholiadau: Medi 2020 i Awst 2021](#), Llywodraeth Cymru

Oherwydd [canslo'r cyfnod arholiadau arferol](#) yn 2019/20 a'r [tarfu parhaus ar ysgolion o ganlyniad i bandemig y Coronafeirws \(COVID-19\)](#), mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu peidio â chyfrifo na chyhoeddi mesurau perfformiad ar gyfer 2019/20 na 2020/21, ar gyfer carfannau Blwyddyn 11 a'r chweched dosbarth.

Ar ôl canslo arholiadau cyhoeddus, mae pob cymhwyster a fyddai wedi cael ei sefyll ar ffurf arholiadau yn ystod tymor yr haf 2019/20 wedi cael ei ddisodli gan y [gorau o naill ai'r radd a asesir gan y ganolfan \(CAG\) neu'r radd safonedig](#) a gyfrifir gan CBAC. Penderfynwyd ar raddau a aseswyd gan y ganolfan gan ddefnyddio amcangyfrif proffesiynol gorau'r athro o'r hyn y byddai'r disgybl yn ei gyflawni pe bai wedi gallu sefyll arholiad. Gall athrawon ddefnyddio unrhyw faen prawf maent yn dymuno ei ddefnyddio wrth amcangyfrif graddau gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) waith cwrs wedi ei gwblhau, ffug arholiadau neu gyflawniad academaidd blaenorol.

Cyhoeddir y data hyn fel Ystadegau Gwladol. Edrychwch ar yr adran Gwybodaeth am Ansawdd Allweddol yn y ddogfen [Canlyniadau arholiadau mewn ysgolion yng Nghymru, 2020/21: Nodiadau](#)

[Asesiad o'r Risg o Lifogydd Cymru](#), Cyfoeth Naturiol Cymru

[Y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu, Ystadegau'r Uned Priodasau dan Orfod 2020](#), Yr Uned Priodasau dan Orfod

Mae'r Uned Priodasau Dan Orfod yn uned ar y cyd rhwng y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu a'r Swyddfa Gartref sy'n gweithio ar bolisi priodas dan orfod, gwaith maes a gwaith achos y llywodraeth. Mae'n gweithredu y tu mewn i'r Deyrnas Unedig, lle darperir cymorth i unrhyw unigolyn, a thramor, lle darperir cymorth conswlaidd i ddinasyddion Prydain, gan gynnwys dinasyddion deuil.

Cyhoeddir y data hyn fel ystadegau swyddogol. Gweler y [Canllaw i Ddefnyddwyr ar: Ystadegau'r Uned Priodasau dan Orfod 2020](#) ar gyfer gwybodaeth am ansawdd a methodoleg.

[Tlodi tanwydd](#), Llywodraeth Cymru

Mae [adroddiad 2018](#) yn cyflwyno canlyniadau'r amcangyfrifon tlodi tanwydd a gyfrifwyd ar gyfer Cymru, gan ddefnyddio Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18, Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017-18 a data ar brisiau tanwydd. Mae ystadegau o Arolwg Cyflwr Tai Cymru ac Arolwg Cenedlaethol Cymru wedi eu dynodi'n Ystadegau Gwladol

Cynhyrchwyd [adroddiad amcangyfrifon tlodi tanwydd ardal leol](#) i ategu adroddiad 2018. Nid yw'r canlyniadau hyn yn cael eu hystyried yn ystadegau swyddogol - maent yn seiliedig ar ddata wedi eu modelu i ddarparu lefelau dangosol o dlodi tanwydd ar lefel awdurdod lleol, a dylid bod yn ofalus wrth eu trin. Dim ond i edrych ar dueddiadau cyffredinol a nodi meysydd lle ceir tlodi tanwydd arbennig o uchel neu isel y dylid eu defnyddio. Ni ddylid eu defnyddio i ganfod tueddiadau dros amser.

Gweler [Amcangyfrifon tlodi tanwydd ar gyfer Cymru: cefndir](#) ar gyfer gwybodaeth am ansawdd a methodoleg.

[Y gwahaniaeth cyflog rhwng y rhywiau yng Nghymru yn ôl blwyddyn \(enillion canolrifol fesul awr gweithwyr llawn amser heb gynnwys goramser\), Llywodraeth Cymru](#)

Daw'r data o'r Arolwg Blyneddol o Oriau ac Enillion (ASHE), sy'n cael ei redeg gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Cyhoeddir y rhain fel Ystadegau Gwladol. Gweler y tabiau Gwybodaeth gryno a Gwybodaeth am ansawdd ystadegau ar y dudalen [Gwahaniaeth cyflog rhwng y rhywiau yng Nghymru yn ôl blwyddyn \(enillion canolrifol fesul awr gweithwyr llawn amser heb gynnwys goramser\) \(£\)](#) ar StatsCymru.

[Incwm gwario gros aelwydydd, y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)

I gael golwg gyffredinol ar y fethodoleg a ddefnyddiwyd i lunio allbynnau cyfrifon rhanbarthol, darllenwch y [Canllaw methodoleg cyfrifon rhanbarthol](#). Bwriad y canllaw hwn yw rhoi dealltwriaeth i'r defnyddiwr o'r hyn sydd wedi ei gynnwys yng nghyfrifon rhanbarthol y Deyrnas Unedig, sut mae amcangyfrifon rhanbarthol o GVA(I), GVA(P), GVA(B), GDHI a GFCF yn cael eu llunio, y gwahanol ddata sy'n cael eu defnyddio i gasglu'r amcangyfrifon, a'r cysyniadau sy'n sail i'r broses gyfan.

[Incwm gwario gros aelwydydd yn rhanbarthol, Bwletinau Ystadegol y Deyrnas Unedig](#)

Mae incwm gwario gros aelwydydd yn cael ei ddynodi'n Ystadegyn Gwladol. Gweler y ddogfen [Gwybodaeth Ansawdd a Methodoleg Incwm gwario aelwydydd gros yn y Rhanbarth](#).

[Troseddau Casineb](#), Y Swyddfa Gartref

Mae'r data hyn wedi eu dynodi'n Ystadegau Gwladol Gweler yr adran Gwybodaeth am Ansawdd yn y datganiad am wybodaeth am ansawdd a methodoleg.

[Disgwyliad iechyd yng Nghymru gyda bwloch anghydraddoldeb](#), Iechyd Cyhoeddus Cymru

Gweler y "ddogfen dechnegol" y gellir ei llwytho i lawr oddi ar y dudalen we. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn parhau i gyhoeddi'r SII ar lefel genedlaethol fel rhan o'i [datganiad ar ddisgwyliad oes a chyflwr iechyd](#).

Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn [adroddiad ansawdd Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch](#). Cyhoeddir y data hyn fel ystadegau swyddogol.

[Lefelau'r cymhwyster uchaf gan oedolion o oedran gweithio yn ôl blwyddyn a chymhwyster](#), Llywodraeth Cymru

Mae'r data hyn wedi eu dynodi'n Ystadegau Gwladol. Gweler yr adran Gwybodaeth am ansawdd yn y datganiad am wybodaeth am ansawdd a methodoleg.

[Darpariaeth llety digartrefedd a chysgu allan](#), Llywodraeth Cymru

Mae'r data hyn yn wybodaeth reoli am bobl sy'n cael eu rhoi mewn llety dros dro a phobl sy'n cysgu allan ar gyfer mis Mai 2021. Mae'n cynnwys llety dros dro a darparu llety hirdymor i bobl sy'n mynd at awdurdodau lleol am gymorth tai gan eu bod mewn perygl o fod yn ddigartref.

Nid yw'r data hwn wedi bod yn destun yr un lefel o sicrwydd ansawdd ag ystadegau swyddogol, ac mae'n bosibl y bydd y data'n cael ei ddiwygio yn y dyfodol.

Dylid trin y ffigurau ar gyfer y mis diweddaraf fel rhai dros dro. Nid yw pob awdurdod lleol wedi gallu darparu data cynhwysfawr, ac adlewyrchir hyn (lle bo hynny'n berthnasol) yn y troednodiadau. Ar gyfer yr amcangyfrifon o gysgu allan, rydym yn cyhoeddi dadansoddiad fesul awdurdod lleol (o fis Tachwedd 2020). Ar gyfer data ar ddefnyddio llety, rydym yn cyhoeddi data ar lefel Cymru yn unig i ddechrau.

Ar hyn o bryd, mae'n bwysig peidio â rhoi gormod o bwyslais ar ddata ar gyfer mis unigol na chymharu â misoedd blaenorol. Mae'r casgliad misol hwn o wybodaeth reoli a'r canllawiau a ddarparwyd yn parhau i gael eu mireinio a'u gwella.

[Ystadegau digartrefedd](#), Llywodraeth Cymru

Gweler yr [adroddiad ar ansawdd ar ddigartrefedd](#) am wybodaeth am ansawdd a methodoleg. Mae'r data hyn wedi eu dynodi'n Ystadegau Gwladol.

[Aelwydydd islaw'r incwm cyfartalog: ar gyfer blynyddoedd ariannol a ddaeth i ben rhwng 1995 a 2021 - GOV.UK \(www.gov.uk\), Yr Adran Gwaith a Phensiynau](#)

Mae'r data hyn wedi eu dynodi'n Ystadegau Gwladol. Gweler

[Y gyfres incwm aelwyd is na'r cyfartaledd: adroddiad gwybodaeth am ansawdd a methodoleg ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2021](#) am ragor o wybodaeth.

[Ystadegau Mewnfudo a Ffoaduriaid](#), y Swyddfa Gartref

Daw'r data hyn o ddata gweinyddol y Swyddfa Gartref, a gyhoeddir fel Ystadegau Gwladol. Gweler y [Canllaw i Ddefnyddwyr ar gyfer Ystadegau Mewnfudo](#) am wybodaeth ynghylch ansawdd a methodoleg data'r Swyddfa Gartref.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn nhabiau Nodiadau'r tablau data.

Tablau a ddefnyddiwyd:

Asy_D11 – ystadegau mewnfudo

Res_D01 – ystadegau ffoaduriaid

[Gwella Cydraddoldeb Hiliol mewn Polisi Troseddu a Chyfiawnder \(Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru\)](#)

[Y farchnad lafur yn rhanbarthau'r Deyrnas Unedig](#), y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae'r bwletin hwn yn defnyddio data a gasglwyd o'r Arolwg o'r Llafurlu, a'r Arolwg Blyneddol o'r Boblogaeth sy'n deillio ohono, sef yr arolwg mwyaf o aelwydydd yn y Deyrnas Unedig. Cyhoeddir y data hyn fel Ystadegau Gwladol.

Mae gwybodaeth ansawdd a methodoleg am gryfderau, cyfyngiadau a defnyddiau priodol, ar gael yn y ddogfen [Gwybodaeth Ansawdd a Methodoleg am yr Arolwg o'r Llafurlu](#). Mae [adroddiadau monitro ansawdd a pherfformiad yr Arolwg o'r Llafurlu](#) yn darparu data ar gyfraddau ymateb a materion yn ymwneud ag ansawdd.

[Trosolwg o'r Farchnad Lafur](#), Llywodraeth Cymru

Mae'r data hyn wedi eu dynodi'n Ystadegau Gwladol. Gweler yr adran Gwybodaeth Ansawdd Allweddol yn yr adroddiad misol diweddaraf.

[Ystadegau'r farchnad lafur](#), Llywodraeth Cymru

Mae'r data hyn wedi eu dynodi'n Ystadegau Gwladol. Gweler adran Gwybodaeth am ansawdd y datganiad am wybodaeth am ansawdd a methodoleg.

[Lefel y cymhwyster uchaf a ddelir gan oedolion o oed gweithio 2021](#), Llywodraeth Cymru

Mae'r data hyn wedi eu dynodi'n Ystadegau Gwladol. Gweler adran Gwybodaeth am ansawdd y datganiad am wybodaeth am ansawdd a methodoleg.

[Tablau byw ar ddigartrefedd](#), y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol

Cyhoeddir y data hyn fel Ystadegau Swyddogol. Mae gwybodaeth am ansawdd a chyfyngiadau data ar gael yn y [datganiad ystadegol](#) a'r [nodiadau technegol](#).

[Disgwyliad oes, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)

Mae data disgwyliad oes iechyd wedi eu dynodi'n Ystadegau Gwladol. Gweler yr adrannau Mesur y Data a Chryfderau a Chyfyngiadau yn y bwletin am wybodaeth am ansawdd a methodoleg. Mae rhagor o wybodaeth am ansawdd a methodoleg o ran cryfderau, cyfyngiadau, defnyddiau priodol, a sut mae'r data wedi cael eu creu ar gael yn y ddogfen [Disgwyliadau oes iechyd, Gwybodaeth Ansawdd a Methodoleg y Deyrnas Unedig](#).

[Disgwyliad Oes a Marwolaeth yng Nghymru 2020](#), Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae'r cyhoeddiad Disgwyliad Oes a Marwolaeth yng Nghymru yn disgrifio tueddiadau mewn disgwyliad oes, disgwyliad oes iach a marwoldeb, ynghyd â dadansoddiad dadelfeniad disgwyliad oes yng Nghymru.

Mae'r adrannau nodiadau yn rhoi arweiniad pellach ar ddiffiniad y dangosydd, unrhyw gafeat, a'r dulliau a'r ffynonellau data a ddefnyddir. Nid yw rhai o'r ffynonellau data a ddefnyddir yn Ystadegau Swyddogol.

[Gwastraff Trefol Awdurdodau Lleol, Llywodraeth Cymru](#)

Casglwyd data ar wastraff trefol gan ddefnyddio system adrodd ar-lein ar gyfer data gwastraff o'r enw 'WasteDataFlow'. Yng Nghymru, Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n rheoli hyn.

Mae'r data hyn wedi eu dynodi'n Ystadegau Gwladol. Gweler [Rheoli Gwastraff Trefol Awdurdodau Lleol: adroddiad ansawdd](#) i gael rhagor o wybodaeth am ansawdd a methodoleg.

[Data cynhyrchu ynni carbon isel](#), StatsCymru

[Priodasau yng Nghymru a Lloegr](#), y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae'r data hyn wedi eu dynodi'n Ystadegau Gwladol. Gweler y [Canllaw i Ddefnyddwyr ar ystadegau priodasau](#) a'r [Wybodaeth Ansawdd a Methodoleg am Briodasau yng Nghymru a Lloegr](#) i gael gwybodaeth am ansawdd a methodoleg.

[Amddifadedd Materol](#), Llywodraeth Cymru

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn defnyddio'r Arolwg o Adnoddau Teulu i gyhoeddi ystadegau am blant a phensiynwyr mewn amddifadedd materol yn ei hadroddiad [Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog](#), wedi ei ddadansoddi ar gyfer gwledydd y Deyrnas Unedig a rhanbarthau Lloegr.

Mae'r data hyn wedi eu dynodi'n Ystadegau Gwladol. Gweler

[Y gyfres incwm aelwyd is na'r cyfartaledd: adroddiad gwybodaeth am ansawdd a methodoleg ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2021](#)

am ragor o wybodaeth.

[Ystadegau mamolaeth a genedigaethau: 2021](#), Llywodraeth Cymru

Mae'r datganiad hwn yn canolbwyntio ar ystadegau ar gyfer genedigaethau gan ddefnyddio data a gafwyd o set ddata Dangosyddion Mamolaeth a'r Gronfa Ddata Genedlaethol ar Iechyd Plant Cymunedol. Mae set ddata'r Dangosyddion Mamolaeth yn cyfuno cofnod geni plentyn â chofnod asesu cychwynnol ei fam (lle bo hynny'n bosibl). Mae'r holl ystadegau a gynhyrchir o'r ffynhonnell hon yn [ystadegau arbrofol](#) gan fod y set ddata yn dal yn gymharol newydd ac nad oes gan bob eitem ddata ganran uchel o ddata dilys wedi ei gofnodi.

Gweler yr adran gwybodaeth am ansawdd a methodoleg yn y datganiad am wybodaeth am ansawdd a methodoleg.

[Caethwasiaeth fodern: Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol a Dyletswydd i Hysbysu ystadegau'r Deyrnas Unedig, crynodeb diwedd blwyddyn 2021 - GOV.UK \(\[www.gov.uk\]\(http://www.gov.uk\)\)](#), Y Swyddfa Gartref

Gweler adran gwybodaeth am ansawdd yr adroddiad am wybodaeth am ansawdd a methodoleg. Cyhoeddir y data hyn fel Ystadegau Swyddogol.

Dadansoddi Marwolaethau, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae ystadegau marwolaeth Cymru a Lloegr wedi eu dynodi'n Ystadegau Gwladol. Mae gwybodaeth am ansawdd a methodoleg ystadegau marwoldeb ar gael yn yr [Wybodaeth Ansawdd a Methodoleg am Farwolaethau yng Nghymru a Lloegr](#) a'r [Canllaw Defnyddwyr i Ystadegau Marwolaethau](#). Mae ffynonellau ychwanegol o wybodaeth am ansawdd a methodoleg ar gyfer yr ystadegau marwoldeb a ddefnyddiwyd yn adroddiad Llesiant Cymru wedi eu rhestru isod.

[Marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol](#)

Mae rhagor o wybodaeth am ansawdd a methodoleg ar gael yn yr adrannau mesur data, cryfderau a chyfyngiadau yn y datganiad neu yn yr [adran gwybodaeth ansawdd am farwolaethau alcohol-benodol yn y Deyrnas Unedig](#).

[Marwolaethau y mae modd eu hosgoi ym Mhrydain: 2020](#)

Mae rhagor o wybodaeth am ansawdd a methodoleg ar gael yn yr adrannau mesur data, cryfderau a chyfyngiadau yn y datganiad.

[Marwolaethau cysylltiedig â COVID-19 yn ôl ardal leol ac amddifadedd economaidd-gymdeithasol](#)

Gweler yr adrannau Mesur y Data a Chryfderau a Chyfyngiadau yn y bwletin am ragor o wybodaeth am ansawdd a methodoleg.

[Marwolaethau oherwydd COVID-19, wedi eu cofrestru yng Nghymru a Lloegr](#)
Ceir gwybodaeth am sut y cyfrifwyd y cyfraddau marwoldeb yn y [Canllaw Defnyddwyr](#) i ystadegau marwoldeb: Adran 12 – Ansawdd Data Marwoldeb.

[Marwolaethau cysylltiedig â gwenwyno gan gyffuriau yng Nghymru a Lloegr](#)

Mae rhagor o wybodaeth am ansawdd a methodoleg ar gael yn yr [Wybodaeth Ansawdd a Methodoleg am Farwolaethau cysylltiedig â gwenwyno gan gyffuriau yng Nghymru a Lloegr](#).

[Dadansoddiad misol o farwolaethau, Cymru a Lloegr](#)

Gweler yr adrannau Mesur y Data a Chryfderau a Chyfyngiadau yn y bwletin am ragor o wybodaeth am ansawdd a methodoleg.

[Anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol o ran marwoldeb y gellid bod wedi ei osgoi yng Nghymru](#)

Mae rhagor o wybodaeth am ansawdd a methodoleg o ran cryfderau, cyfyngiadau, defnyddiau priodol, a sut mae'r data wedi cael ei greu ar gael yn yr [wybodaeth am ansawdd a methodoleg anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol](#).

[Hunanladdiadau yng Nghymru a Lloegr](#)

Mae rhagor o wybodaeth am ansawdd a methodoleg o ran cryfderau, cyfyngiadau, defnyddiau priodol, a sut mae'r data wedi cael eu creu ar gael yn y ddogfen [Disgwyliadau oes iechyd, Gwybodaeth Ansawdd a Methodoleg y Deyrnas Unedig](#).

[Cyfrif cenedlaethol o gysgu allan](#), Llywodraeth Cymru

Cynhaliwyd ymarfer monitro cenedlaethol ar gyfer pobl sy'n cysgu allan gan Awdurdodau Lleol, mewn partneriaeth ag asiantaethau lleol eraill, i fesur faint sy'n cysgu allan ledled Cymru. Roedd yn cynnwys ymarfer casglu gwybodaeth dros gyfnod o bythefnos ym mis Hydref 2019 (Cam 1), wedi ei ddilyn gan gyfrif ciplun un noson ar 7 Tachwedd 2019 (Cam 2). Amcangyfrif ciplun yw'r cyfrif ym mis Tachwedd 2019 i raddau helaeth, a dim ond awgrym bras iawn o lefelau cysgu allan sydd ar noson y cyfrif. Mae amrywiaeth o ffactorau'n gallu effeithio ar gyfrif pobl sy'n cysgu allan yn ystod un noson, gan gynnwys lleoliad, amseru a thywydd. Mae'r ffigurau hyn

ar wahân i ystadegau digartrefedd statudol sy'n rhoi gwybodaeth am nifer yr aelwydydd sy'n gwneud cais i awdurdodau lleol am gymorth tai o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 oherwydd eu bod yn ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd.

Gweler yr adran gwybodaeth allweddol am ansawdd yn yr adroddiad [Cyfrif Cenedlaethol o Gysgu Allan, Tachwedd 2019](#) i gael rhagor o wybodaeth am ansawdd a methodoleg.

[Arolwg Cenedlaethol Cymru](#), Llywodraeth Cymru

Mae'r data hyn wedi eu dynodi'n Ystadegau Gwladol. Gweler yr adroddiadau ansawdd ar gyfer canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru ar y dudalen [Gwybodaeth Dechnegol](#).

[Prif ganlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru: Ebrill 2021 i Fawrth 2022](#)

[Treial ar-lein Arolwg Cenedlaethol Cymru: Gorffennaf 2021 i Ionawr 2022](#),
Llywodraeth Cymru

[Deilliannau dysgwyr mewn addysg ôl-16 a effeithiwyd gan bandemig y coronafeirws \(COVID-19\)](#), Llywodraeth Cymru

Ystadegau arbrofol yw'r rhain. Gweler Adran 13 (Gwybodaeth ansawdd a methodoleg) yn yr adroddiad am wybodaeth am ansawdd a methodoleg.

Canlyniadau ar gyfer pobl anabl yn y Deyrnas Unedig, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae'r [erthygl methodoleg](#) sy'n cyd-fynd â hi yn rhoi rhagor o fanylion am effaith pandemig y coronafeirws (COVID-19) ar y ffynonellau data, cwmpas yr arolwg, a chryfderau a chyfyngiadau'r dadansoddiad.

[Cyfranogiad pobl ifanc mewn addysg a'r farchnad lafur 2019 a 2020 \(dros dro\)](#),
Llywodraeth Cymru

Mae'r data hyn wedi eu dynodi'n Ystadegau Gwladol. Gweler adran Gwybodaeth am ansawdd y datganiad am wybodaeth am ansawdd a methodoleg.

[Canran y bobl sy'n weddol fodlon neu'n fodlon iawn ar eu swyddi yn ôl oedran \(StatsCymru\)](#)

Cesglir y data hyn fel rhan o Arolwg Cenedlaethol Cymru. Gweler adran [gwybodaeth ansawdd yr Arolwg Cenedlaethol](#) am wybodaeth am ansawdd a methodoleg.

[Tlodi parhaus](#), Llywodraeth Cymru

Daw data ar dlodi parhaus yng Nghymru gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Cyhoeddir y data hyn fel Ystadegau Swyddogol. Gweler

[Income Dynamics: background information and methodology](#)

i gael gwybodaeth am ansawdd a methodoleg.

[Ystadegau dysgu ôl-16 yn ôl grŵp ethnig y dysgwyr](#), Llywodraeth Cymru

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r ystadegau gwaelodlin ar ddysgu ôl-16 ar gyfer dysgwyr o gefndiroedd ethnig gwahanol fel y gellir adnabod a monitro anghydraddoldebau yn y dyfodol. Gweler Adran 13 (Gwybodaeth ansawdd a methodoleg) yn yr adroddiad am wybodaeth am ansawdd a methodoleg.

Llesiant personol, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

[Amcangyfrifon Llesiant personol blynyddol](#)

Cyhoeddir y data hyn fel Ystadegau Gwladol. Daw data ar gyfer yr amcangyfrifon llesiant personol o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, sef yr arolwg mwyaf o aelwydydd yn y Deyrnas Unedig sy'n cynnwys cwestiynau llesiant personol y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Gweler gwybodaeth am ansawdd data a methodoleg yn yr [Wybodaeth Ansawdd a Methodoleg am lesiant personol yn y Deyrnas Unedig](#).

[Llesiant personol ac economaidd](#)

Mae'r dadansoddiad a gyflwynir yn y cyhoeddiad hwn yn seiliedig ar ddwy ffynhonnell ddata wahanol, sef yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ac Effeithiau Trethi a Budd-daliadau. Gweler yr adran ansawdd a methodoleg yn y datganiad am ragor o wybodaeth. Mae rhagor o wybodaeth am ansawdd a methodoleg ar gyfer y ffynonellau data ar gael yn yr [Arolwg blynyddol o'r boblogaeth](#) ac [Effeithiau trethi a budd-daliadau ar incwm aelwydydd](#),

[Tablau data agored troseddau a chanlyniadau a gofnodwyd gan yr heddlu](#), y Swyddfa Gartref

Cyhoeddir y data hyn fel Ystadegau Swyddogol. Mae gwybodaeth am ansawdd a methodoleg ar gael yn [Troseddau a chanlyniadau a gofnodwyd gan yr heddlu: Canllaw Defnyddwyr Tablau Data Agored](#).

[Asesiadau gwaelodlin safleoedd gwarchoddedig](#), Cyfoeth Naturiol Cymru

Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus

Mae'r data hyn yn deillio o ddatganiadau blynyddol a wnaed i'r Adran Drafnidiaeth gan sampl o 700 o ddeiliaid trwyddedau gweithredwyr Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus ('yr arolwg PSV'). Mae'r arolwg hwn yn rhoi gwybodaeth am siwrneiau teithwyr, milltiroedd cerbydau, derbynebaw teithwyr a chostau gweithredu. Mae arolygon llai, ar wahân sy'n cael eu rheoli gan yr Adran Drafnidiaeth yn casglu gwybodaeth am newidiadau mewn prisiau, dibynadwyedd y gwasanaeth a nawddogaeth chwarterol gan y cwmnïau bysiau mwy.

Mae manylion llawn y ffynonellau data a'r dulliau a ddefnyddiwyd ar gael yn y [canllawiau \(Yr Adran Drafnidiaeth\)](#).

[Marwolaethau chwarterol sy'n benodol i alcohol yng Nghymru a Lloegr](#), Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae'r data hyn wedi'u dynodi'n Ystadegau Gwladol. Gweler yr adrannau Mesur Data a Chryfderau a Chyfyngiadau o'r bwletin am fwy o wybodaeth o ansawdd a methodoleg. Mae mwy o wybodaeth o ansawdd a methodoleg am gryfderau, cyfyngiadau, defnyddiau priodol, a sut y crëwyd y data ar gael yn [Adran 10 o'r bwletin blynyddol](#) a'r [Gwybodaeth Ansawdd a Methodoleg marwolaethau benodol i alcohol y DU](#).

[Cyflog Byw Gwirioneddol](#), Living Wage Foundation

Mae'r Living Wage Foundation yn sefydliad ymgyrchu yn y Deyrnas Unedig sy'n ceisio perswadio cyflogwyr i dalu cyflog byw. Gweler Adran 5 (Methodoleg) yr adroddiad am wybodaeth am ansawdd a methodoleg.

[Ailgylchu – Pwy sy'n arwain y byd o ddifri?](#), Eunomia

Mae Eunomia yn sefydliad annibynnol sy'n darparu gwasanaeth ymgynghori amgylcheddol sy'n canolbwyntio ar fasnach i sefydliadau cyhoeddus a phreifat. Cynhyrchodd Eunomia adroddiad yn 2017 yn dadansoddi data gwastraff trefol o nifer o wledydd. Gweler adran Dull a Thybiaethau yr adroddiad am wybodaeth am ansawdd a methodoleg.

[Cynhyrchiant rhanbarthol ac is-ranbarthol yn y Deyrnas Unedig: Gorffennaf 2022, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)

Mae'r data yn y datganiad hwn yn cael eu dosbarthu fel [Ystadegau Arbrofol](#). Gweler yr adran Ansawdd a methodoleg yn yr adroddiad am wybodaeth am ansawdd a methodoleg.

[Gwerth ychwanegol gros rhanbarthol \(wedi ei gydbwysu\) y pen a chydannau incwm, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)

I gael golwg gyffredinol ar y fethodoleg a ddefnyddiwyd i lunio allbynnau cyfrifon rhanbarthol, darllenwch y [Canllaw methodoleg cyfrifon rhanbarthol](#). Bwriad y canllaw hwn yw rhoi dealltwriaeth i'r defnyddiwr o'r hyn sydd wedi ei gynnwys yng nghyfrifon rhanbarthol y Deyrnas Unedig, sut mae amcangyfrifon rhanbarthol o GVA(I), GVA(P), GVA(B), GDHI a GFCF yn cael eu llunio, y gwahanol ddata sy'n cael eu defnyddio i gasglu'r amcangyfrifon, a'r cysyniadau sy'n sail i'r broses gyfan.

Mae amcangyfrifon Gwerth Ychwanegol Gros Rhanbarthol (wedi eu cydbwysu) wedi eu dynodi'n Ystadegau Gwladol. Gweler yr Adroddiad ar [Ansawdd a Methodoleg Gwerth Ychwanegol Crynswth y Rhanbarth \(wedi ei gydbwysu\)](#).

[Ystadegau'r farchnad lafur ranbarthol yn y Deyrnas Unedig, bwletinau ystadegol, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)

Mae'r bwletin hwn yn defnyddio data a gasglwyd o'r Arolwg o'r Llafurlu, a'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth sy'n deillio ohono, sef yr arolwg mwyaf o aelwydydd yn y Deyrnas Unedig. Mae'r data hyn wedi eu dynodi'n Ystadegau Gwladol.

Mae gwybodaeth ansawdd a methodoleg am gryfderau, cyfyngiadau a defnyddiau priodol, ar gael yn y ddogfen [Gwybodaeth Ansawdd a Methodoleg am yr Arolwg o'r Llafurlu](#). Mae [adroddiadau monitro ansawdd a pherfformiad yr Arolwg o'r Llafurlu](#) yn darparu data ar gyfraddau ymateb a materion yn ymwneud ag ansawdd.

[Tlodi Incwm cymharol, Llywodraeth Cymru](#)

Mae'r data hyn wedi eu dynodi'n Ystadegau Gwladol. Gweler y [gyfres incwm aelwyd is na'r cyfartaledd: adroddiad gwybodaeth am ansawdd a methodoleg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben yn 2021](#) am ragor o wybodaeth.

[Traffig Ffyrdd, Llywodraeth Cymru](#)

[Mae'r data hyn wedi eu dynodi'n Ystadegau Gwladol. Edrychwch ar yr wybodaeth ansawdd i gael rhagor o wybodaeth.](#)

[Canlyniadau'r cyfrifiad ysgolion: Ebrill 2021 \(dros dro\), Llywodraeth Cymru](#)

Ystadegau ar ysgolion, athrawon a disgyblion gan gynnwys data ar gyfer awdurdodau lleol a Chymru ym mis Ebrill 2021. Mae data cyfrifiad ysgolion wedi eu dynodi'n Ystadegau Gwladol.

Data dros dro yw hwn. Nid yw'r data wedi mynd drwy'r prosesau dilysu data arferol eto. Fel rhan o Setliad Cyllid Llywodraeth Leol Cymru, mae'r data'n cael ei ddychwelyd i awdurdodau lleol i'w dilysu'n derfynol. Er bod y rhan fwyaf o ysgolion wedi gallu cyflwyno data cyn y dyddiad casglu data cychwynnol, nid oedd 6 ysgol yn gallu gwneud hynny. Dim ond yn y cyfrif ysgolion mae'r ysgolion hyn yn cael eu cynnwys yn y prif bwyntiau. Byddant yn cael eu hychwanegu at gyhoeddiad terfynol y cyfrifiad ysgolion ym mis Medi 2021. Bydd nifer y disgyblion a ddangosir yn y prif bwyntiau felly'n cynyddu ychydig pan gyhoeddir y data terfynol.

Gan hynny, dylai defnyddwyr fod yn fwy gofalus wrth gymharu data ar ddisgyblion a staff dros amser, yn enwedig pan fydd carfannau bach dan sylw.

[Cyfrifiad Gweithlu Ysgolion](#)

[Ni chyhoeddir y data hyn fel Ystadegau Swyddogol.](#) Gweler adran Methodoleg yr adroddiad am wybodaeth am ansawdd a methodoleg.

[Adroddiad Anghydraddoldebau'r Is-adran Sgrinio 2020-21 \(Iechyd Cyhoeddus Cymru\)](#)

[Arolwg Sgiliau a Chyflogaeth: Gweithio yng Nghymru, 2006 i 2017, Llywodraeth Cymru](#)

[Ni chyhoeddir y data hyn fel Ystadegau Swyddogol.](#) Gweler adran Methodoleg yr adroddiad am wybodaeth am ansawdd a methodoleg.

[Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yn nyfroedd Cymru - Aseidiadau cyflwr dangosol nodweddion safleoedd 2018, Cyfoeth Naturiol Cymru](#)

[Crynodeb o ganlyniadau Rhaglen Monitro a Gwerthuso Glastir](#)

[Arolwg o Wastraff Diwydiannol a Masnachol a Gynhyrchwyd yng Nghymru 2018, Adnoddau Naturiol Cymru](#)

[Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol \(SoNaRR\) 2020, Cyfoeth Naturiol Cymru](#)

Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n llunio'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol.

Gweler [SoNaRR 2020: Ein Dull](#) am drosolwg o'r dull mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ei ddefnyddio i asesu llwyddiant Cymru o ran Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR).

Mae'r [cofrestri adnoddau naturiol](#) yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol am bwysau a chyflleoedd allweddol, asesiadau o SMNR a rhestrau tystiolaeth ar gyfer yr wyth ecosystem eang a ddefnyddir yn SoNaRR2020.

Mae rhagor o wybodaeth am ansawdd a methodoleg ar gael yn y penodau sy'n cyfateb i'r [wyth ecosystem eang](#) a'r [wyth thema drawsbynciol](#) a ddefnyddir yn SoNaRR2020.

[Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr](#), Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion

Mae'r arolwg yn cael ei gynnal gan y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion (SHRN), sy'n bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru; Iechyd Cyhoeddus Cymru; Cancer Research UK; Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERD); a Phrifysgol Caerdydd. Cynhelir yr arolwg bob dwy flynedd, ac mae'n rhoi ciplun rheolaidd o ymddygiadau iechyd pobl ifanc rhwng 11-16 oed yng Nghymru. Mae'r arolwg yn cael ei gwblhau ar-lein yn yr ystafell ddosbarth. Yn 2019/20, roedd bron i 120,000 o fyfyrwyr wedi cymryd rhan yn yr arolwg.

Gweler adran Dulliau yr adroddiad am wybodaeth am ansawdd a methodoleg.

[Ystadegau Trafnidiaeth Prydain](#), yr Adran Drafnidiaeth

Mae gwybodaeth am yr ystadegau trafndiaeth ar gael ar eu [tudalen arweiniad, gan gynnwys dogfennau ffynhonnell, nodiadau cysylltiedig a diffiniadau a dogfennau technegol ategol](#). Mae'r data hyn wedi eu dynodi'n Ystadegau Gwladol.

[Cynllun Monitro Glöynnod Byw y Deyrnas Unedig](#)

Dynodir y data hyn fel Ystadegau Swyddogol. Mae gwybodaeth am ansawdd a methodoleg ar gael yn y [ddogfen dechnegol](#).

[Ystadegau'r Deyrnas Unedig ar wastraff](#)

Dynodir y data hyn fel Ystadegau Swyddogol. Edrychwch ar yr [adran methodoleg](#) i gael rhagor o wybodaeth.

[Ystadegau cerbydau allyriadau isel iawn, yr Adran Drafnidiaeth](#)

Daw bron yr holl ystadegau yn y gyfres ystadegau trwyddedu cerbydau o gronfa ddata cerbydau'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA). Prif bwrpas y gronfa ddata yw gweinyddu cofnodion cofrestru a thrwyddedu cerbydau (ar gyfer Prydain cyn mis Gorffennaf 2014, ac ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan ers y dyddiad hwn).

Mae'r holl ystadegau sy'n deillio o gronfa ddata trwyddedu cerbydau DVLA wedi eu dynodi'n Ystadegau Gwladol. Gweler [Ystadegau Trwyddedu Cerbydau: Nodiadau a Diffiniadau](#) am wybodaeth am ansawdd a methodoleg.

[Nifer y plant a gafodd frechlynnau yng Nghymru](#), Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae data am y niferoedd sy'n cael brechiadau yn cael eu darparu gan gynllun cenedlaethol COVER Iechyd Cyhoeddus Cymru. Ni chyhoeddir y data hyn fel ystadegau swyddogol. Mae'r cynllun gwyliadwriaeth hwn, sy'n cael ei redeg gan Raglen Frechu yn erbyn Clefydau Ataliadwy Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Ganolfan Arolygu Clefydau Trosglwyddadwy, yn cyfrifo'r ddarpariaeth brechu gan ddefnyddio data o'r Gronfa Ddata Genedlaethol ar Iechyd Plant Cymunedol. Mae'r Gronfa yn cael ei chynnal gan Wasanaeth Gwybodaeth GIG Cymru ac mae'n cynnwys cofnodion wedi eu hechdynnu o gronfa ddata swyddfeydd Iechyd Plant yr holl fyrddau iechyd ledled Cymru. Mae'r Gronfa yn cael ei hadnewyddu bob chwarter.

Enwadur y cyfrifiadau defnyddio a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad COVER blynyddol yw nifer y plant a gofrestrwyd gyda swyddfeydd Iechyd Plant a gyrhaeddodd ben-blwyddau mesur allweddol yn ystod y flwyddyn rhwng Ebrill a Mawrth ac a oedd yn byw ac yn preswyllo yn ardaloedd byrddau iechyd Cymru ar ddiwedd y cyfnod hwn. Tybir bod y plant wedi eu brechu erbyn oedran mesur os oes ganddynt ddyddiad brechu wedi ei gofnodi yn eu cofnod iechyd plentyn, sydd cyn y pen-blwydd perthnasol.

Gall ansawdd y data yn y Gronfa fod yn llai yn achos plant hŷn sy'n cael cyswllt llai aml â gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd, ac y gallai eu cofnodion iechyd plant fod yn cael eu diweddarau yn llai aml.

[Adroddiad ar ansawdd dŵr ymdrochi Cymru 2021](#), Cyfoeth Naturiol Cymru

Gweler yr adran ar fonitro a dosbarthu yn 2021 yn yr adroddiad am wybodaeth am ansawdd a methodoleg.

[Arolwg o Sgîl-gynhyrchion Gwastraff Adeiladu a Dymchwel Cymru](#)

[Arolwg Cyflwr Tai Cymru \(asesiad o elfennau o'r Safon Ansawdd Tai Cymru\): Ebrill 2017 - Mawrth 2018](#), Llywodraeth Cymru

Mae'r datganiad hwn yn edrych ar asesiad o rai elfennau o Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) fel sy'n cael eu mesur gan Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18. Dylai defnyddwyr sy'n dymuno edrych ar dueddiadau o ran cyrraedd y safon ansawdd ar gyfer tai cymdeithasol dros amser ddefnyddio Ystadegau Swyddogol Safon Ansawdd Tai Cymru. Dylai'r rhai sy'n dymuno cymharu ar draws deiliadaeth ddefnyddio [adroddiad SATC Arolwg Cyflwr Tai Cymru](#) (gan nodi mai dim ond is-set o elfennau sydd wedi cael eu mesur)). Nid oes modd cymharu'r ddwy ffynhonnell ddata yn uniongyrchol. Gellir gweld rhagor o wybodaeth am sut mae'r arolwg wedi asesu'r Safon Ansawdd Tai Cymru yn yr [Adroddiad Technegol](#).

[Safon Ansawdd Tai Cymru: ar 31 Rhagfyr 2020](#), Llywodraeth Cymru

Mae'r ystadegau swyddogol hyn yn cyflwyno gwybodaeth o'r casgliad data blynyddol sy'n mesur y cynnydd mae landlordiaid cymdeithasol yn dweud eu bod yn ei wneud o ran cyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru yn gysylltiedig â'u stoc. Gellir gweld rhagor o wybodaeth am ansawdd yr ystadegau hyn yn yr [Adroddiad Ansawdd](#).

[Data am y Gymraeg o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth](#), Llywodraeth Cymru

Mae'r data hyn wedi eu dynodi'n Ystadegau Gwladol. Mae gwybodaeth am gyd-destun, ansawdd a methodoleg ar gael yn y tabiau gwybodaeth gryno a gwybodaeth am ansawdd ystadegau yn nhablau Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth [StatsCymru](#).

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol sy'n cynnal yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth. Mae manylion am sut mae'r arolwg yn cael ei ddatblygu a'i gynnal ar gael yn adroddiad [Gwybodaeth am Ddull ac ansawdd yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth](#).

[Y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru \(canfyddiadau cychwynnol\): Gorffennaf 2019 i Fawrth 2020](#), Llywodraeth Cymru

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau cychwynnol yr Arolwg Defnydd o'r Gymraeg 2019-20. Daeth yr arolwg i ben yn gynharach na'r disgwyl oherwydd pandemig y coronafeirws (COVID-19). Mae rhagor o wybodaeth ynglŷn â goblygiadau hyn, a chyfyngiadau'r data o ganlyniad i hynny (gan gynnwys diffyg amcangyfrifon ar lefel awdurdod lleol) ar gael yn yr adran [gwybodaeth am ansawdd a methodoleg](#).

[Traciwr Gweithgarwch Cymru](#), Chwaraeon Cymru

Roedd Savanta ComRes wedi cyfweld 1,004 o oedolion (16+) yng Nghymru ar-lein rhwng 13 Awst a 16 Awst 2021. Cafodd y data ei bwysoli i fod yn gynrychioliadol o ddemograffeg oedolion yng Nghymru yn ôl rhywedd, oed, rhanbarth, graddfa gymdeithasol, a'r amcangyfrif o aelwydydd â phlant o dan 16 oed. Mae Savanta ComRes yn aelod o'r British Polling Council ac mae'n glynu wrth ei reolau.

Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein gan ddefnyddio paneli cyfranogwyr mewnol Savanta. Mae'r arolwg yn cael ei gynnis i bawb ar y panel sy'n byw yng Nghymru ac sydd rhwng 16 a 99 oed.

Caiff y panel ei ddiweddarau'n barhaus gydag aelodau newydd tra bo aelodau anweithredol neu aelodau o ansawdd gwael yn cael eu tynnu oddi ar y panel yn rheolaidd.

Gan fod yn rhaid "optio i mewn" i'r arolwg (h.y. mae aelodau'r panel yn dewis cymryd rhan), nid oes rhaid i gyfranogwyr gwblhau'r arolwg ar ôl dechrau a gallant roi'r gorau i ateb ar unrhyw adeg.

Gan fod yr arolwg yn cael ei gwblhau bob chwarter, nid yw ymatebwyr a gwblhaodd yr arolwg yn y chwarter blaenorol yn cael eu heithrio gan fod digon o amser wedi mynd heibio i osgoi unrhyw broblemau â'r data a gasglwyd.

[Safleoedd Treftadaeth y Byd](#), Cadw

Gweler [Deall Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru](#) i gael gwybodaeth am Safleoedd Treftadaeth y Byd.

[Iechyd a lles meddwl pobl ifanc yng Nghymru: Cymharu canfyddiadau o arolwg lechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion 2019 a 2021](#)

Gweler adran Dulliau yr adroddiad am wybodaeth am ansawdd a methodoleg.